


Offerynnau eGaffael



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi cymorth am ddim i wella prosesau caffael electronig o fewn sefydliadau'r Sector Cyhoeddus yng Nghymru.

Mae'r tudalennau canlynol yn rhoi disgrifiad byr o'r amrywiol adnoddau eGaffael sydd ar gael.

Rheolwr Portffolio Cyflenwyr (SPM)

Mae SPM yn rhoi gwybodaeth am y gwaith sgorio ariannol a dadansoddi risg a wneir ar gyfer cyflenwyr y sefydliadau sy'n prynu drwy'r adnoddau canlynol:

- » Dangosyddion Risg er mwyn gwerthuso'r risg bosibl o gynnal busnes gyda chyflenwr
- » Sgoriau Methiant, sy'n rhestru cwmnïau yn ôl y tebygolrwydd o fynd i'r wal
- » Adroddiadau i asesu risg cyflenwyr a'u sgoriau ariannol
- » Hysbysiadau er mwyn monitro newidiadau o ran cyflenwyr a rhoi gwybod i brynwyr am unrhyw risgiau newydd
- » Coeden deulu sefydliadau a chyflenwyr sy'n helpu i ddeall risg ar draws y gadwyn gyflenwi

Rhagor o gymorth:

Desg Gymorth: 0845 145 1700

E-bost: Portfoliomanagerquery@dnb.com

Gwefan: www.portfoliomanager.dnb.com

Canllaw i Ddefnyddwyr: www.dnb.co.uk/resources/supplier-portfolio-manager-brochure

GwerthwchiGymru

Gwefan hysbysebu genedlaethol am ddim yw GwerthwchiGymru, lle y gall prynwyr yn y sector cyhoeddus yng Nghymru hysbysebu cyfleoedd i gyflenwyr. Yn unol â gofynion Datganiad Polisi Caffael Cymru, mae'n annog prynwyr i hysbysebu pob hysbysiad dros £25k. Mae'n cynnig ffordd syml a diogel o dendro i'r sefydliadau hynny nad yw'n addas iddynt ddefnyddio'r adnoddau eGyrchu proffesiynol.

Mae'n cynnwys y canlynol:

- » Dewin creu hysbysiadau ar gyfer creu a chyhoeddi hysbysiadau ar gyfer Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd a hysbysiadau gwerth isel
- » Squizard – Holiadur seiliedig ar risg sy'n helpu prynwyr i greu'r set fwyaf priodol o gwestiynau'r Gronfa Ddata Gwybodaeth am Gymwysterau Cyflenwyr (SQuID) ar gyfer eu cyfle caffael. Set o gwestiynau craidd cyffredin i'w defnyddio ar y cam dethol yw SQuID
- » Dyfynbris Cyflym – cyfleuster Cais Syml am Ddyfynbris
- » Cyfleuster cyflwyno tendrau ar-lein sy'n galluogi prynwyr i gael ymatebion diogel gan gyflenwyr gan gadw trywydd archwilio cyflawn
- » Canfod Cyflenwr sy'n dod o hyd i gyflenwyr gan ddefnyddio paramedrau amrywiol megis enw, rhanbarth, cod post ac ati
- » Desg gymorth sy'n gwirio pob hysbysiad ac yn rhoi cymorth ac arweiniad ar ddefnyddio'r safle

Rhagor o gymorth:

Desg Gymorth: 0800 222 9004

E-bost: help@sell2wales.gov.uk

Gwefan: www.gwerthwchigymru.llyw.cymru/

Canllawiau defnyddiol:

Blwch postio www.millstream.eu/guides/cy-gb/BlwchPostio.pdf

Hysbysiad Cam 2 www.millstream.eu/guides/cy-gb/HysbysiadCam2.pdf

Dyfynbris Cyflym www.millstream.eu/guides/cy-gb/DyfynbrisCyflym.pdf

SQuID www.millstream.eu/guides/cy-gb/CanllawPrynwrSquid.pdf

eDendroCymru ac AWARD

Adnodd eGyrchu proffesiynol o'r dechrau i'r diwedd yw eDendroCymru, sy'n ymgorffori llifau gwaith, tendro, gwerthuso, rheoli contractau a phris, yn ogystal â pherfformiad cyflenwyr. Mae'n rhoi gwelededd i brynwyr a rheolaeth dros eglurhadau cyflenwyr, yn ogystal â rhoi trywydd archwilio cynhwysfawr.

Mae'n cynnwys y canlynol:

Rheoli Rhaglenni

- » Mae'n galluogi sefydliad i ddylunio a gweithredu proses gaffael cam wrth gam sy'n gallu sicrhau cydymffurfiaeth â'r Undeb Ewropeaidd, Datganiad Polisi Caffael Cymru a rheolau sefydlog mewnol
- » Mae'n helpu i leihau cost hyfforddi staff caffael newydd gan fod modd ymgorffori'r holl dempledi canllaw a dogfennau caffael eraill

eDendro

- » System gaffael o'r dechrau i'r diwedd sy'n cynnig proses dendro ddiogel sy'n cydymffurfio wedi'i chyfuno â phroses werthuso sydd wedi'i hawtomeiddio
- » Gellir llunio dendrau gan ddefnyddio lanlwythiadau taenlen (gan gynnwys cwestiynau SQuID a gyflwynir ar ôl rhedeg Squizard yn GwerthwchiGymru)
- » Gellir cynnal gwerthusiadau o fewn yr adnodd neu all-lein
- » Caiff eglurhadau cyflenwyr a'r broses o ddarlledu gwybodaeth eu rheoli drwy'r adnodd

Ocsiynau

- » Mae'n helpu prynwyr i sicrhau'r gwerth gorau am arian o'u hymatebion i dendrau gan ddefnyddio Ocsiynau Cynyddu neu Leihau Pris
- » Gellir ystyried ffactorau nad ydynt yn ymwneud â phris, megis ansawdd, gwasanaeth a Chyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol, wrth gyfrifo'r sgoriau cyffredinol er mwyn gwneud penderfyniadau ynghylch dyfarniadau yn seiliedig ar y Tendr Mwyaf Manteisiol yn Economaidd (MEAT)

Rheoli Cyflenwyr

- » Mae'n storio data cofrestru cyflenwyr a manylion y digwyddiadau y maent wedi cael eu gwahodd iddynt a'r rhai y maent wedi bod yn llwyddiannus neu'n aflwyddiannus ynddynt
- » Mae'n galluogi pobl i gael gaffael ar adroddiadau Constructionline.

AWARD (Commerce Decision)

- » Mae'n ei gwneud yn bosibl i dendrau mawr, cymhleth a sensitif gael eu gwerthuso lle mae'r paneli gwerthuso ar wasgar yn ddaearyddol
- » Wedi'i integreiddio'n llawn ag eDendroCymru
- » Llyfr gwaith syml gyda chanllawiau i werthuswyr
- » Gall cymedrolwyr olrhain cynnydd gwerthuswyr
- » Y gallu i ddiystyru cyflenwyr sy'n methu â bodloni'r meini prawf sylfaenol
- » Y dewis o lunio adroddiadau dadfriffio cynhwysfawr

Rhagor o Gymorth:

Desg Gymorth: 0800 3684852

E-bost: help@bravosolution.co.uk

Gwefan: <https://etenderwales.bravosolution.co.uk/home.html>

Canllawiau a hyfforddiant ar-lein defnyddiol i ddefnyddwyr cofrestredig:

<https://training.bravosolution.com/uk/course/index.php?categoryid=5>

- » Marchnad sydd ar gael i gwsmeriaid y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol a sefydliadau penodol y Sector Cyhoeddus yng Nghymru
- » Y gallu i wneud archebion prynu electronig o gatalogau (cenedlaethol, h.y. y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol, a lleol, h.y. fframwaith sy'n benodol i'r sefydliad sy'n prynu) ac archebion testun rhydd
- » Gellir cael gafael ar fframweithiau'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol a chanllawiau prynu perthnasol drwy'r Cyfeiriadur Contractau
- » Gellir cynnal mini-gystadlaethau gan sicrhau bod pob cyflenwr a ddyfarnwyd yn cael ei wahodd
- » Y gallu i brynu'n uniongyrchol o wefan y cyflenwr (cysylltiad dwbl)
- » Pan fydd prynwyr yn archebu'n electronig, gallant gael anfonebau electronig y gellir eu cysoni'n awtomatig (o fewn goddefiannau) gan leihau'r pwysau ar staff Cyfrifon sy'n Daladwy
- » Yn gallu gweithio ar y cyd ag eDaliadau

Rhagor o gymorth:

Desg Gymorth: 0845 603 2885

Ebost: support@procserve.com

Canllawiau defnyddiol:

Prynwyr: <http://info.basware.co.uk/pm/>

Cyflenwyr: <http://suppliers.basware.co.uk/pm> / <http://suppliers.basware.co.uk>

eDaliadau

Mae'r gwasanaeth eDaliadau yn cynnig ffordd gyflym, costeffeithiol a diogel o brynu unrhyw nwyddau a gwasanaethau. Telir ad-daliad blynyddol i bob sefydliad sy'n cymryd rhan yn seiliedig ar gyfanswm y gwariant ar gaffael yng Nghymru. Ymhlith y manteision i gyflenwyr mae gwell llif arian, gan fod modd iddynt gael hyd at 38 diwrnod o gredyd di-log (a allai arwain at bris is i brynwyr) a thaliadau cyflymach, o fewn tri neu bedwar diwrnod fel arfer.

Cerdyn Prynu

- » Fe'i hategir gan system rheoli cardiau
- » Mae ar gael fel cerdyn go iawn neu gerdyn wedi'i fewnblannu
- » Mae'n rhoi manylion eitemau llinell gan gyflenwyr Lefel 3 gyda'r opsiwn o godio trafodion yn awtomatig o fewn system rheoli gwariant ar gyfer sefydliadau sy'n prynu

Precisionpay

- » Rhith-gerdyn sy'n ei gwneud yn bosibl i bob taliad unigol gael ei reoli, gyda chyfleuster cysoni cadarn
- » Caiff rhif cerdyn unigryw ei greu ar gyfer pob trafodyn neu set o drafodion
- » Proses/llif gwaith cyn cymeradwyo a deilwyr yn unigol i bob cwsmer can sicrhau cydymffurfiaeth â gweithdrefnau lleol

Precisionpay Direct

- » System yn seiliedig ar rith-gerdyn ar gyfer cyfrifon sy'n daladwy er mwyn gwneud taliadau i gyflenwyr a ffefrir
- » Bydd prynwyr yn cadw'r prosesau sydd eisoes yn bodoli ar gyfer Cyfrifon sy'n Daladwy (gan gynnwys camau cymeradwyo)
- » Gwneir pob taliad ar rith-rif cyfrif unigryw a ariennir yn ddeinamig

Cyfrif Rheoli Teithio

- » System dalu ganolog ar gyfer rheoli'r treuliau sy'n gysylltiedig â theithio cyflogaion a drefnir drwy Gwmni Rheoli Teithio heb fod angen cardiau corfforaethol na therfynau uchel i deithwyr mynych
- » Mae'n ei gwneud yn bosibl i reoli gwariant yn dynnach ac yn cynnig system symlach ar gyfer rheoli treuliau

Rhagor o gymorth:

Desg Gymorth: 0333 202 2051

E-bost: hmg@barclaycard.co.uk

Rheoli Gwerth Contractau a Chyflenwyr

Mae'r gwasanaethau Rheoli Contractau a Rheoli Gwerth Cyflenwyr wedi'u hintegreiddio o fewn eDendroCymru.

Rheoli Contractau

- » Mae'n storio'r holl ddogfennaeth (telerau, contractau, cyfathrebu â chontractwyr megis newid mewn pris ac ati) yn ddiogel o fewn strwythur y tendr gan sicrhau bod modd cael mynediad cyflym, paratoi adroddiadau a gweld trywydd archwilio
- » Gellir trosi tendrau a ddyfernir yn gontractau yn hawdd
- » Gellir sefydlu Dangosyddion Perfformiad Allweddol a hysbysiadau contractau er mwyn atgoffa am gerrig milltir allweddol a dyddiadau dod i ben

Rheoli Gwerth Cyflenwyr

- » Mae'n rhoi fframwaith ar gyfer olrhain a rheoli perfformiad a chydymffurfiaeth cyflenwyr yn effeithiol, yn ogystal â nodi risg, tueddiadau a meysydd sy'n peri problemau
- » Mae'n galluogi sefydliad i gynnal adolygiadau cynhwysfawr o'u cyflenwyr a meincnodi perfformiad yn barhaus er mwyn sicrhau gwelliant
- » Mae cardiau sgorio contractau a mentrau yn ffordd o gofnodi dangosyddion perfformiad allweddol categorïau perfformiad, sy'n cael eu mesur yn amserol.